Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	22.04.25
Pwnc / Subject:	Strategaeth y Gymraeg 2025–2030 Crynodeb Ddrafft

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu crynodeb ddrafft 'Strategaeth y Gymraeg 2025-2030' Cymwysterau Cymru. Mae'n cyd-fynd gyda 'Cymraeg 2050', 'Bil y Gymraeg ac Addysg' (Cymru), a disgwyliadau 'Safonau'r Gymraeg'. Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro'n glir ac yn darparu cynllun ymarferol ond uchelgeisiol ar draws meysydd allweddol gan gynnwys adolygu a diwygio cymwysterau, rheoleiddio a monitro, diwylliant sefydliadol, a rôl technoleg ac ymchwil.

Rydym yn croesawu'n arbennig y gydnabyddiaeth o'r angen i ehangu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gefnogi dysgwyr ar y continwwm llawn o sgiliau Cymraeg, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Bydd hyn yn debygol o helpu i sicrhau mynediad cyfartal i gymwysterau a chanlyniadau gwell i ddysgwyr.

Rydym yn cefnogi'r fframwaith pum colofn allweddol i gynnal y gwaith, yn enwedig y ffordd ymarferol o weithredu a gwerthuso. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol sicrhau cysondeb ac eglurder yn y ffordd y mae'r strategaeth wedi'i hymgorffori ar draws y system addysg, yn enwedig yn y sector ôl-16 ac ymhlith y cyrff dyfarnu.

Prif negeseuon

- Rydym yn cefnogi nod a strwythur cyffredinol y strategaeth a'r ffordd mae'n plethu gyda'r polisïau cenedlaethol.
- Rydym yn croesawu'r ffocws ar adolygu a diwygio cymwysterau yn enwedig i ymateb yn rhagweithiol i'r galw cynyddol am ystod briodol o gymwysterau Cymraeg i gefnogi dysgwyr wrth iddyn nhw symud ymlaen ar hyd y continwwm o sgiliau Cymraeg. Mae ehangu'r arlwy sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig o fewn sectorau ôl-16 a meysydd galwedigaethol yn gwbl hanfodol.
- Rydyn ni hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan flaenllaw o'ch gwaith a'ch bod yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg staff er mwyn ei gwreiddio o fewn y sefydliad.

- Mae cydweithio parhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion a cholegau, yn allweddol i wireddu'r uchelgais, gan sicrhau bod yr asesiadau cyfrwng Cymraeg nid yn unig yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol ond hefyd yn cael eu hannog.
- Bydd angen sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn sicrhau bod y fframwaith yn cael ei ddefnyddio i gefnogi sefydliadau mewn ffordd ymarferol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1.I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull wedi ei amlinellu yn ein strategaeth Gymraeg cynigiedig?

Rydyn ni'n cytuno gyda'r amlinelliad. Mae strwythur pendant yn y pum colofn o fewn y fframwaith. Trwy'r disgwyliadau, ymgysylltiad gyda'r rhanddeiliaid ac ymgorffori'r Gymraeg yn eich gweithle – bydd hyn yn fodd i normaleiddio'r Gymraeg ar draws y sector addysg a chymwysterau.

2.I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y strategaeth yn ddigon uchelgeisiol i gefnogi amcanion Bil y Gymraeg ac Addysg a ysgogwyr polisi eraill o ran y Gymraeg?

Mae'r strategaeth yn un uchelgeisiol. Mae'n adlewyrchu prif nod y Bil sef sicrhau bod pob dysgwr yn defnyddio Cymraeg annibynnol a'u bod yn datblygu sgiliau llafar sy'n cyfateb i o leiaf lefel B2 o'r CEFR. Mae llwyddiant hyn yn dibynnu ar lawer o ffactorau sef bod pob dysgwr yn cyrraedd lefel B2 yn y lle cyntaf a bod cynnydd mawr yn yr arlwy o gymwysterau Cymraeg i gefnogi dysgwyr gan gynnwys rhai galwedigaethol ôl-16 dwyieithog. Mae'n rhaid bod cyd-dynnu ar draws yn y sector addysg.

3. Pa dueddiadau ychwanegol sy'n effeithio ar addysg a chymdeithas ehangach ddylen ni eu hystyried?

Y datblygiad mwyaf trawsnewidiol yw deallusrwydd artiffisial. Mae'n arf sy'n gallu grymuso ac mae defnydd ohono yn cynyddu'n gyflym. Mae angen i Gymwysterau Cymru sicrhau bod y technolegau newydd hyn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg fel yn y Saesneg.

Recriwtio – mae Cymwysterau Cymru eisoes wedi nodi'r pwysigrwydd i ddal gafael ar aelodau staff sydd â sgiliau Cymraeg a chynyddu eu nifer erbyn 2030. Ond mae prinder o siaradwyr Cymraeg yn broblem ar draws y sector addysg gan gynnwys sicrhau'r dilyniant o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth ôl-16 er medru addysgu'r cymwysterau.

Niferoedd sy'n dewis y pynciau i'w hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg (yn enwedig y pynciau galwedigaethol). Efallai ei bod yn syniad cyfeirio at yr adroddiad thematig ar y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gafodd ei gyhoeddi gan Estyn ddiwedd Mawrth 2025. Yn fras, dengys y canfyddiadau fod y mentrau (e-ddysgu, Sgiliaith a Chymraeg Gwaith) wedi llwyddo i gynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg ac yn cofrestru eu gallu i weithio drwy'r iaith. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth i gysylltu'r hyfforddiant yn uniongyrchol â gwelliannau hirdymor mewn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod mwy o weithgareddau dysgu bellach yn cynnwys 'ychydig bach o ddysgu cyfrwng Cymraeg,' ychydig o dwf a fu mewn addysgu dwyieithog lefel uwch a Chymraeg yn unig. Os oes niferoedd bach, mae llai o alw am gymwysterau a'r duedd i ddewis cyfrwng Saesneg yn fwy apelgar, hyd yn oed i ddisgyblion sydd wedi dod o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a'u medrau yn y Gymraeg yn gadarn.

4. Gyda pha agwedd o'n gwaith allwch chi'n helpu fel partneriaid/ rhanddeiliaid, er mwyn ein cefnogi i gwblhau amcanion y strategaeth?

Gall Estyn gefnogi'r strategaeth drwy:-

*gyflwyno adroddiadau thematig ar argaeledd ac ansawdd y cymwysterau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg

*ddarparu adborth o'r arolygiadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig ysgolion a darparwyr ôl-16

*gydweithio er mwyn datblygu canllawiau a phrosesau gwerthuso er mwyn cefnogi datblygiad iaith a sicrhau mynediad i bob dysgwr.

5. Rydym wedi awgrymu strategaeth bum mlynedd 2025-2030, gydag adroddiadau blynyddol – a yw hyn yn synhwyrol yn eich barn chi?

Mae pum mlynedd yn gyfnod sy'n caniatáu amser i systemau newid a dwyn ffrwyth. Bydd yr adroddiadau blynyddol yn fodd i werthuso'r camau ac addasu fel bo angen yn ôl y canfyddiadau.

6. Sut gallwn ni fesur ein heffaith?

Rydyn ni'n argymell y canlynol :

Craffu ar y niferoedd sy'n gwneud y cymwysterau Cymraeg a dwyieithog ar draws yr holl sectorau.

Tracio cynnydd dysgwyr o ran eu datblygiad yn y sgiliau llafar ar y fframwaith cyfeirio cyffredin Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd (CEFR).

Craffu ar y nifer o gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yn y Gymraeg, gan ystyried cyd-destunau'r sefydliadau hynny.

Holi barn y canolfannau sy'n cynnig ac yn gweithredu'r cymwysterau hynny.

Gwneud defnydd o 'Llais y dysgwr'.

Tracio cynnydd y gweithlu o fewn Cymwysterau Cymru er mwyn gwerthuso defnydd a rhuglder y gweithwyr.

Adnabod astudiaethau achos neu adroddiadau thematig o arferion da.

7. Unrhyw sylwadau eraill?

Dyma strategaeth amserol. Rydym yn annog Cymwysterau Cymru i fod yn hyblyg ac yn gynhwysol wrth newid, yn enwedig wrth ymateb i anghenion dysgwyr. Mae angen cydweithio agos ar draws y gyfundrefn addysg er mwyn sicrhau llwyddiant yn y maes hwn.